

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol – y Grŵp Addysg a Gwasanaethau
Cyhoeddus

24 Awst 2020

Annwyl Tracey

Caffael prydau ysgol

Wrth baratoi ar gyfer sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag Andrew Slade ar 14 Medi, a fydd yn canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus, gwnaeth yr Aelodau gais bod y broses o gaffael prydau ysgol yn cael ei thrafod yn ystod y sesiwn. Rwy'n ymwybodol nad yw'r mater hwn yn dod o fewn cylch gwaith Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

Yn sgil hynny, byddwn yn gwerthfawrogi eich sylwadau ynghylch y broses o gaffael prydau ysgol, ac yn benodol ynghylch a ydynt yn cael eu caffael yn genedlaethol neu gan awdurdodau lleol unigol, ac ynghylch sut y mae'r weithdrefn gaffael yn blaenoriaethu'r defnydd o fwydydd sy'n cael eu tyfu/cynhyrchu yn lleol.

Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi anfon eich ymateb atom erbyn 8 Medi, a hynny er mwyn caniatáu i'r Aelodau ei ystyried gyda'u papurau ar gyfer y cyfarfod ar 14 Medi. Ymddiheuriadau bod y cyfnod ymateb mor fyr.

Yn gywir,



Nick Ramsay AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddArchwilio@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddPAC@senedd.wales

☎ 0300 200 6565